# SL(6)050 - Rheoliadau Dyrannu Tai a Digartrefedd (Cymhwystra) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2021

## Cefndir a diben

Mae’r Rheoliadau hyn yn diwygio darpariaethau Rheoliadau Dyrannu Tai a Digartrefedd (Cymhwystra) (Cymru) 2014 ("Rheoliadau 2014"). Mae Rheoliadau 2014 yn pennu pa bersonau o dramor sy’n gymwys i gael dyraniad o lety tai o dan Ran 6 o Ddeddf Tai 1996, neu i gael cymorth tai o dan Atodlen 2 i Ddeddf Tai (Cymru) 2014.

Mae'r Rheoliadau hyn yn estyn cymhwystra o ran dyrannu llety tai a chymorth tai a ddarperir gan awdurdodau lleol. Mae'r estyniad yn darparu i ddau grŵp newydd o bobl fod yn gymwys i gael llety tai a chymorth tai, sef:

- pobl â fisa Gwladolyn Prydeinig (Tramor) Hong Kong sy’n mynd yn amddifad ac sydd wedi cael newid i'w statws mewnfudo sy’n eu galluogi i gael gafael ar arian cyhoeddus; a
- phobl sy'n dod i'r DU o Affganistan o dan gynlluniau neu bolisïau penodol y Swyddfa Gartref neu sydd wedi gadael Affganistan yn ddiweddar oherwydd cwymp llywodraeth y wlad (yn ddarostyngedig i rai amodau), ac sydd â chaniatâd i ddod i mewn i’r DU neu i aros ynddi neu nad oes angen caniatâd o'r fath arnynt.

Mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn darparu bod personau nad ydynt yn ddarostyngedig i reolaeth fewnfudo sydd wedi cyrraedd o Affganistan yn ddiweddar yn gymwys i gael dyraniad o lety tai a chymorth tai, os gwnaethant adael mewn cysylltiad â chwymp llywodraeth Affganistan.

## Gweithdrefn

Cadarnhaol Drafft.

Mae Gweinidogion Cymru wedi gosod drafft o'r Rheoliadau gerbron y Senedd. Ni all Gweinidogion Cymru wneud y Rheoliadau oni bai fod y Senedd yn cymeradwyo'r Rheoliadau drafft.

## Materion technegol: craffu

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Nodwn na chynhaliwyd ymgynghoriad ffurfiol ar y Rheoliadau hyn. Yn benodol, nodwn y paragraffau a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol:

> *"As the Regulations in respect of the Hong Kong BN(O) provide a limited amendment, affecting a small number of individuals, a formal public consultation was not considered appropriate. The speed of the restoration of the Taliban regime in Afghanistan and the development at pace of the UK Government's settlement schemes for the Afghan arrivals/returnees cohort also means there has not been time to consult on this aspect of the Regulations."*

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Nid oes angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

## Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn yn ei gyfarfod ar 4 Hydref 2021 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwynt adrodd uchod.